HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthych pa fanylion personol rydyn ni'n eu casglu, beth rydyn ni'n ei wneud â'ch gwybodaeth, pwy y gallwn ni rannu'r wybodaeth â nhw a pham, a'ch hawliau o ran yr wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi i ni.

Pwy ydyn ni?

Mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys (SCHTh) yn rhoi cymorth i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) ar gyfer Dyfed-Powys o ran cyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau sy'n cynnwys dal y Prif Gwnstabl ar gyfer Dyfed-Powys yn atebol am blismona lleol, llunio a diweddaru cynllun heddlu a throseddu, pennu'r gyllideb a'r praesept ac ymgysylltu â'r cyhoedd a chymunedau o fewn Dyfed-Powys.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu yw'r **Rheolwr Data** ac felly ganddo ef y mae'r cyfrifoldeb cyffredinol am brosesu'r holl wybodaeth bersonol rydyn ni'n ei phrosesu mewn modd cyfreithlon. Cynorthwyir y CHTh gan y Swyddog Diogelu Data sy'n darparu cyngor ac arweiniad mewn perthynas â chyfraith diogelu data.

Y **Swyddog Diogelu Data** yw Neil Evans.

Yr **Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth** yw Carys Morgans

Ein rhif cofrestr diogelu data gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yw Z3563145

Ble ydyn ni?

Gallwch chi gysylltu â ni

Drwy e-bost:
opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

Dros y ffôn:
01267 226440

Drwy'r post:
Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer Dyfed-Powys
Blwch Post 99
Llangynnwr
Caerfyrddin
SA31 2PF

Beth yw data personol?

Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU) yn diffinio data personol fel "unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson naturiol adnabyddedig neu adnabyddadwy

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

('gwrthrych y data'); mae person naturiol adnabyddadwy yn un y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn benodol drwy gyfeirio at ddynodwr megis enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodwr ar-lein neu at un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth enetig, gorfforol, ffisiolegol, feddyliol, economaidd, ddiwylliannol neu gymdeithasol y person naturiol hwnnw".

Pa wybodaeth bersonol ydyn ni'n ei chasglu?

Bydd y math o wybodaeth bersonol a gedwir gennym yn amrywio yn dibynnu ar reswm eich cysylltiad â ni ond gallai gynnwys:

- Eich enw a'ch cyfeiriad
- Teulu, ffordd o fyw ac amgylchiadau cymdeithasol
- Manylion addysg a hyfforddiant
- Manylion cyflogaeth
- Manylion ariannol
- Nwyddau neu wasanaethau rydych chi'n eu darparu
- Tarddiad hiliol neu ethnig
- Daliadau gwleidyddol
- Credoau crefyddol neu gredoau eraill o natur debyg
- Aelodaeth o undeb llafur
- Iechyd neu gyflwr corfforol neu feddyliol
- Troseddau a throseddau honedig
- Achosion, canlyniadau a dedfrydau troseddol
- Sain a delweddau gweledol, gan gynnwys ffotograffau o staff a swyddogion
- Cyfeiriadau at ffeiliau neu gofnodion ar bapur
- Gwybodaeth yn ymwneud â diogelwch ac iechyd
- Manylion am gwynion, digwyddiadau, ymgyfreitha sifil a damweiniau

Pam ydyn ni'n casglu'r wybodaeth hon?

Rydyn ni'n casglu gwybodaeth er mwyn darparu gwasanaeth i'r cyhoedd yn unol â'n polisïau, ein gweithdrefnau a dyletswyddau statudol y CHTh.

Bydd y gwasanaeth hwn yn cynnwys:

- Rheoli cwynion ac ymholiadau
- Recriwtio

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

- Gweinyddu, iechyd galwedigaethol a lles staff
- Rheoli cysylltiadau cyhoeddus, newyddiaduraeth, hysbysebu a'r cyfryngau
- Rheoli cyllid
- Adolygiadau mewnol, cyfrifyddu ac archwilio
- Hyfforddiant
- Rheoli ystadau
- Rheoli yswiriant
- Rheoli cerbydau a thrafnidiaeth
- Rheoli'r gyflogres a buddion
- Fetio
- Rheoli systemau technoleg gwybodaeth
- Rheoli Adnoddau Dynol
- Gwasanaethau cyfreithiol
- Darparu gwybodaeth
- Trwyddedu a chofrestru
- Gweinyddu pensiynau
- Rheoli perfformiad
- Caffael
- Cynllunio
- Diogelwch
- Rheoli iechyd a diogelwch

Gwybodaeth pwy ydyn ni'n ei chasglu?

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir uchod, gall swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys gael, defnyddio a datgelu gwybodaeth bersonol yn ymwneud ag amrywiaeth eang o unigolion gan gynnwys:

- Ein staff, swyddogion, gwirfoddolwyr, asiantau, gweithwyr dros dro a gweithwyr achlysurol
- Cyflenwyr
- Achwynwyr
- Gohebwyr, ymgyfreithwyr ac ymholwyr
- Cynghorwyr, ymgynghorwyr ac arbenigwyr proffesiynol eraill
- Perthnasau, gwarcheidwaid a phersonau sy'n gysylltiedig â'r unigolyn dan sylw
- Cyn-aelodau o staff ac aelodau posibl, pensiynwyr a buddiolwyr
- Ei'n gwasanaethau gomisiynu

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

- Derbynwyr grantiau

O ble y cawn ni eich gwybodaeth bersonol?

Er mwyn cyflawni'r dibenion rydyn ni wedi'u disgrifio, gallwn gael gwybodaeth bersonol o amrywiaeth eang o ffynonellau, gan gynnwys:

- Heddlu Dyfed-Powys
- Cyllid a Thollau EM
- Cynrychiolwyr cyfreithiol a Chyfreithwyr
- Llysoedd
- Sefydliadau sector gwirfoddol
- Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)
- Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (AHGTAEM)
- Archwilwyr
- Comisiynwyr Heddlu a Throseddu
- Llywodraeth ganolog, asiantaethau ac adrannau llywodraethol
- Perthnasau, gwarcheidwaid neu bersonau eraill sy'n gysylltiedig ag unigolyn
- Cyflogwyr presennol a blaenorol unigolion neu eu darpar gyflogwyr
- Ymgynghorwyr neu ymarferwyr gofal iechyd, cymdeithasol a lles
- Addysg, sefydliadau hyfforddi a chyrff arholi
- Cysylltiadau busnes a chynghorwyr proffesiynol eraill
- Gweithwyr, swyddogion ac asiantiaid Heddlu a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
- Cyflenwyr, darparwyr nwyddau neu wasanaethau
- Personau sy'n gwneud ymholiad neu gŵyn
- Cynghorwyr a sefydliadau ariannol
- Asiantaethau gwirio credyd
- Sefydliadau ymchwil ac arolygiadau
- Undebau llafur, cymdeithasau staff a chyrff proffesiynol
- Llywodraeth leol
- Sefydliadau gwirfoddol ac elusennol
- Ombwdsmyn ac awdurdodau rheoleiddio
- Y cyfryngau

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Beth yw ein sail gyfreithiol dros ddefnyddio eich gwybodaeth?

Ni fydd y SCHTh yn prosesu eich gwybodaeth oni bai fod sail gyfreithiol i wneud hynny, fel y nodir yn y Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data y DU. Y rhain yw:

- **Caniatâd** – mae'r unigolyn wedi rhoi caniatâd clir i chi brosesu ei ddata personol at ddiben penodol
- **Cytundeb** – mae'r prosesu'n angenrheidiol ar gyfer cytundeb sydd gennych gyda'r unigolyn, neu oherwydd ei fod wedi gofyn i chi gymryd camau penodol cyn ymrwymo i gytundeb
- **Rhwymedigaeth gyfreithiol** – mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn i chi gydymffurfio â'r gyfraith (heb gynnwys rhwymedigaethau dan gytundeb)
- **Buddiannau allweddol** – mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn diogelu bywyd rhywun
- **Tasg gyhoeddus** – mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn i chi gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu ar gyfer eich dyletswyddau swyddogol, ac mae gan y dasg neu'r ddyletswydd sail gyfreithiol glir
- **Buddiannau dilys** – mae'r prosesu'n angenrheidiol ar gyfer eich buddiannau dilys neu fuddiannau dilys trydydd parti oni bai fod rheswm da dros ddiogelu data personol yr unigolyn sy'n cael ei ystyried yn bwysicach na'r buddiannau dilys hynny. Nid yw hyn yn berthnasol os ydyn ni'n prosesu data er mwyn cyflawni ein tasgau swyddogol

Gyda phwy ydyn ni'n rhannu eich gwybodaeth bersonol?

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifiwyd, gall Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys ddatgelu gwybodaeth bersonol i amrywiaeth eang o dderbynwyr, lle bo angen, gan gynnwys y rheini y ceir data personol oddi wrthynt. Gallai'r rhain gynnwys:

- Gwasanaethau Cymorth ar gyfer Dioddefwyr a Throseddwyr
- Cyrff neu unigolion sy'n gweithio ar ein rhan megis contractwyr TG neu sefydliadau arolygiadau
- Llywodraeth leol
- Llywodraeth ganolog
- Ombwdsmyn ac awdurdodau rheoleiddio
- Y cyfryngau
- Darparwyr Gofal Iechyd
- Heddlu Dyfed Powys

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Datgelir gwybodaeth bersonol ar sail pob achos unigol, a dim ond gwybodaeth berthnasol, sy'n benodol i'r diben a'r amgylchiadau, a gaiff ei datgelu a chyda'r rheolaethau angenrheidiol yn weithredol.

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth ag unrhyw drydydd parti at ddibenion marchnata uniongyrchol.

Bydd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys hefyd yn datgelu gwybodaeth bersonol i gyrff neu unigolion eraill pan fydd gofyn iddo wneud hynny, gallai hyn fod o dan ddeddfwriaeth, yn ôl rheol gyfreithiol, neu drwy orchymyn llys. Gallai'r rhain gynnwys:

- Y Gwasanaeth Cynhaliaeth Plant
- Gwasanaethau Cynghori Llys i Blant a Theuluoedd
- Y Swyddfa Gartref
- Llysoedd
- Unrhyw Gorff Rheoleiddio arall sy'n gallu dangos bod diben dilys ar gyfer prosesu eich data personol

Gall Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys hefyd ddatgelu gwybodaeth bersonol yn ôl disgresiwn at ddiben, ac mewn cysylltiad ag, unrhyw achosion cyfreithiol neu er mwyn cael cyngor cyfreithiol.

Efallai y bydd achlysuron hefyd pan fydd angen i ni rannu eich gwybodaeth bersonol er mwyn diogelwch y cyhoedd, megis:

- Ar gyfer ymchwilio, canfod ac atal trosedd.
- Lle y mae dyletswydd gyfreithiol i rannu'r wybodaeth a bod pwysigrwydd gwneud hynny'n drech na phwysigrwydd cyfrinachedd
- Os oes peryglon difrifol i'r cyhoedd, ein staff neu weithwyr proffesiynol eraill.
- I amddiffyn plant neu oedolion bregus
- Mae buddiannau cyhoeddus sy'n drech na'r ddyletswydd o gyfrinachedd.

Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Swyddfa Annibynnol ar gyfer Ymddygiad yr Heddlu yw'r Cyrff Adolygu Perthnasol ar gyfer cwynion yr heddlu. Bydd ceisiadau am Adolygiadau gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael eu cyfeirio at ymgynghorydd annibynnol i'w hystyried.

Sut ydyn ni'n cadw'ch gwybodaeth yn ddiogel?

Mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn cymryd diogelwch yr holl wybodaeth bersonol sydd o dan ein rheolaeth o ddifrif. Byddwn yn cydymffurfio â'r rhannau perthnasol

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

o'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelwch, ac yn ceisio cydymffurfio â rhannau perthnasol o'r Safon Diogelwch Gwybodaeth ISO27001.

Byddwn yn sicrhau bod polisïau a hyfforddiant priodol, yn ogystal â mesurau technegol a gweithdrefnol, wedi'u sefydlu. Bydd y rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, sicrhau bod ein hadeiladau'n ddiogel ac wedi'u diogelu drwy ddulliau ffisegol digonol. Dim ond y sawl sydd â'r wybodaeth adnabod briodol ac sydd â rhesymau dilys dros gael mynediad, sy'n gallu mynd i'r ardaloedd sydd wedi'u cyfyngu i'n swyddogion heddlu, staff ac asiantaethau partner.

Rydyn ni'n cynnal archwiliadau ac arolygiadau rheolaidd er mwyn diogelu ein gwybodaeth electronig ac ar bapur rhag achosion o golli a chamddefnyddio data, a dim ond pan fydd rheswm cyfreithlon dros wneud hynny y byddwn yn caniatáu mynediad iddynt. Mae ein gweithdrefnau a'n polisïau gweithredu safonol yn cynnwys canllawiau caeth ar sut y gellir

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

defnyddio unrhyw wybodaeth bersonol a geir ynddynt. Adolygir y gweithdrefnau hyn yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y prosesau diogelu gwybodaeth yn gyfredol.

Am ba hyd fyddwn ni'n cadw gwybodaeth bersonol?

Mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn cadw eich gwybodaeth bersonol gyhyd ag y mae angen at y diben neu'r dibenion penodol y caiff y wybodaeth ei chadw.

Bydd cofnodion sy'n cynnwys eich gwybodaeth bersonol a brosesir at ddibenion "data cyffredinol" yn cael eu rheoli'n unol â Pholisi Cadw a Gwaredu Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.

Beth yw eich hawliau o ran gwybodaeth?

Mae newid yn y Ddeddf Diogelu Data newydd yn ymwneud â hawliau unigolion, mae'r gyfraith yn egluro ac yn ymestyn hawliau a oedd yn bodoli o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, yn ogystal â chyflwyno rhai ychwanegol.

Bydd eich hawliau o ran gwybodaeth yn dibynnu ar y rhesymau pam a sut y casglwyd eich gwybodaeth a pham y mae'n cael ei defnyddio.

Eich hawliau o ran gwybodaeth mewn perthynas â data personol, a ystyrir yn "ddata cyffredinol" yw:

Yr hawl i gael gwybod – Mae hyn yn gosod rhwymedigaeth ar Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i ddweud wrthych chi sut rydyn ni'n casglu eich gwybodaeth bersonol a disgrifio sut y byddwn yn ei defnyddio, ei chadw, ei storio ac â phwy y gallwn ni rannu'r wybodaeth.

Hawl Mynediad – Gelwir hyn yn aml yn fynediad gwrthrych a dyma'r hawl sy'n caniatáu i chi weld eich data personol a'r wybodaeth atodol, fodd bynnag mae'n ddarostyngedig i gyfyngiadau penodol.

Yr hawl i ofyn am Gywiro – Mae gennych hawl i gael data personol wedi'i gywiro os yw'n anghywir neu'n anghyflawn.

Yr hawl i Ddileu – Gelwir yr hawl i ddileu hefyd yn 'hawl i gael eich anghofio'. Mae'r hawl hon yn eich galluogi i ofyn am i ddata personol gael ei ddileu neu ei dynnu lle nad oes rheswm cymhellol dros barhau i'w brosesu.

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Yr hawl i Gyfyngu ar Brosesu – Mae gan unigolion yr hawl i atal neu gyfyngu ar brosesu data personol. Pan gyfyngir ar brosesu, caniateir i sefydliadau storio'r data personol, ond nid i'w brosesu ymhellach.

Yr hawl i Gludadwyedd Data – Mae'r hawl i gludadwyedd data yn caniatáu i chi, mewn rhai achosion, gael ac ailddefnyddio eich data personol at eich dibenion eich hun mewn gwasanaethau gwahanol.

Yr hawl i Wrthwynebu – Mae gan unigolion yr hawl i wrthwynebu'r canlynol:

- Prosesu eu data personol ar sail buddiannau dilys neu gyflawni tasg er budd y cyhoedd/wrth gyflawni awdurdod swyddogol (gan gynnwys proffilio)
- Prosesu eu data personol at ddibenion marchnata uniongyrchol (gan gynnwys proffilio)
- Prosesu eu data personol at ddibenion ymchwil ac ystadegau gwyddonol/hanesyddol.

Hawliau mewn perthynas â Gwneud Penderfyniadau Awtomataidd – Ystyr gwneud penderfyniadau unigol awtomataidd a phroffilio yw penderfyniad a wneir drwy fodd awtomataidd heb unrhyw ymwneud dynol.

Os nad ydych chi'n fodlon

Mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn gosod safonau uchel iawn ar gyfer casglu a defnyddio data personol yn briodol ac yn cymryd unrhyw gwynion o ddifrif. Hoffem i chi dynnu ein sylw at unrhyw achos lle rydych chi'n credu bod y defnydd o ddata yn annheg, yn gamarweiniol neu'n amhriodol. Cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data yn gyntaf.

Os byddwch yn dal i fod yn anfodlon ar ôl cysylltu â'n Swyddog Diogelu Data, gallwch gyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
Yr Ail Lawr, Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Ffôn: 01625 545297

Ffacs: 029 2067 8399
E-bost: wales@ico.org.uk